**COFNODION PWYLLGOR Y TY**

**Dyddiad**: 29 Ionawr 2004

**Amser**: 9.00am

**Lleoliad**: Ystafell Gynadledda C

**Aelodau'n bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janet Davies, AC Plaid Cymru
William Graham, AC Ceidwadwyr
Janice Gregory, AC Llafur
Karen Sinclair, AC Llafur
Y Llywydd (yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
John Bowley, Cyfarwyddwr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil a Phwyllgor yr Aelodau
Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd
Nerys Evans, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Sara Lloyd, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Catherine Morris, YP i'r Dirprwy Lywydd
Gwyn Griffiths, Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Pwyllgor Deddfau

## 1 <u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi</u>

1.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 20 Tachwedd eu cadarnhau 18 Rhagfyr a'u cyhoeddi 5 Ionawr 2004.

Dywedodd Y Cadeirydd ei fod wedi siarad â Chadeirydd yr Is-grwp Arlwyo ynghylch materion arlwyo. Cytunodd y Pwyllgor y byddai John Marek, Janice Gregory a David Melding yn cyfarfod â'r rheolwr arlwyo i drafod materion ymhellach. Pe na cheid gwelliannau byddai cyfarfod â'r rheolwyr arlwyo rhanbarthol

Yn dilyn cwestiwn gan y Cadeirydd nodwyd mai siwgr câns Masnach Deg yw'r siwgr a ddefnyddir yn adeilad y Cynulliad.

Gofynnodd y Cadeirydd a fu unrhyw ddatblygiadau yn yr ymchwilio i symleiddio rheolau caffael o ran prynu pethau ar gyfer Siop y Cynulliad. Dywedodd Dianne Bevan fod trafodaethau'n parhau ac yr adroddir am y datblygiadau yn y cyfarfod nesaf.

1.2 Diweddaru'r Amserlen Weithredu HC(02)-01-04(p1)

Datganiad Swyddfa'r Llywydd ar Ddarparu Gwasanaethau Dwyieithog

Cylchredwyd drafft diwygiedig i'r Aelodau oddi allan i'r pwyllgor. Ni dderbyniwyd gwelliannau. Cytunodd yr Aelodau i gadarnhau'r datganiad.

Gwella Gwasanaethau Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd

Dywedodd Gwen Parry fod Swyddfa'r Llywydd wedi dechrau'r broses recriwtio eisoes cyn derbyn y cais yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor. Recriwtiwyd athro ychwanegol i weithio yng Nghanolfan y Lanfa ac athro ar gyfer swyddfa Gogledd Cymru Swyddfa'r Llywydd.

Gwybodaeth Gyllidebol

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod nifer o bapurau â chanddynt oblygiadau cyllidebol a staffio o'u blaen i'w hystyried. Er mwyn i'r Pwyllgor ystyried, gwerthuso a blaenoriaethu'r cynigion hyn yn briodol, roedd y Cadeirydd wedi gofyn i'r swyddogion gyflwyno cynigion Gwariant Blynyddol cyllidebol manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol 2004/05 yn ogystal â'r Gyllideb gyfredol ar gyfer rhedeg yr adran, a'r sefydliad staffio cyfredol, i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

Cais i ystyried prynu crochenwaith Mynwy ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad

Nodwyd fod y cais wedi'i drosglwyddo i Banel Ymgynghorol y Celfyddydau fu'n gyfrifol am roi cyngor i'r grwp llywio polisi (PSG). Gwnaeth yr aelodau gais i'r perwyl fod Is-grwp y Celfyddydau yn cael gwybod am unrhyw benderfyniadau a wnaed gan Banel Ymgynghorol y Celfyddydau a gofynnir eu barn ynglyn â pherthynas y ddau grwp i'r dyfodol a'r cyd-gysylltu a geir rhyngddynt.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Cofnod Gair am air o Drafodion y Pwyllgor (Treialu)

Cyflwynir papur i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Bysellfwrdd Cofnod y Trafodion

Cafwyd bysellfwrdd 'distaw' ar gyfer Cofnod y Trafodion a desg y Clerc yn y Siambr.

Adolygu'r canllawiau ar gyfer archebu'r Neuadd a threfniadau ar gyfer archebu ystafelloedd

Cyflwynir papur i'r cyfarfod nesaf.

Man Gorffwys i'r Staff Diogelwch

Roedd y mater yn derbyn sylw.

Monitro'r toiledau

Nodwyd fod y toiledau yn yr adeilad yn cael eu monitro ddwywaith y dydd bellach. Dywedodd Karen Sinclair fod diffyg ar y golau yn nhoiled yr anabl ar y llawr cyntaf ers dau ddiwrnod. Gofynnodd hefyd am ostwng grym y dwr yn y tapiau yn nhoiledau'r anabl yn yr adeilad.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Cofrestru Grwpiau Traws-bleidiol

Nodwyd y byddai'r Swyddfa Gyflwyno yn rhoi arweiniad a ffurflenni cofrestru yn y dyfodol agos.

Ymweliad â Chynulliad Llundain Fwyaf
Roedd pob Aelod Cynulliad fu'n ymwneud ag ymweliad Cynulliad Llundain Fwyaf, yn ogystal ag unrhyw Aelodau o'r Pwyllgor Busnes a fyddai'n dymuno dod, wedi cael gwahoddiad i ymweld â Chynulliad Llundain.

Acwsteg yn y Siambr

Roedd swyddogion yn ymchwilio i wella'r acwsteg yn y Siambr.

**Gweithredu: Gwen Parry**

**2 Gweithredu'n Codi o Gyfarfodydd yr Is-grwpiau**

2.1 Cyfarfod yr Is-grwp Arlwyo 10 Rhagfyr 2003 HC(2)-01-04(p2)

Cadarnhawyd y cofnodion.

2.2 Cyfarfod Grwp Cyswllt Cyfarpar a Chyfleusterau 26 Ionawr 2004 HC(2)-05-03(p3)

Ffurflen Gyflog sy’n Amrywio Dros Dro

Gofynnodd y Cadeirydd i Wayne Cowley a fu unrhyw ddatblygiad yngln â’r cais am ffurflen gyflog sy’n amrywio dros dro i wahaniaethu rhwng hawlio treuliau wedi’u trethu neu heb eu trethu. Dywedodd Wayne Cowley y byddai’n trafod y mater â Chadeirydd y Grwp Cyswllt Cyfarpar a Chyfleusterau.

Glanhau Bysellfyrddau

Nodwyd y gellir archebu cynnyrch glanhau bysellfyrddau gan adnoddau ysgrifennu’r Aelodau.

Adnoddau Ysgrifennu

Cadarnhaodd Nerys Evans fod y canllawiau a ddarperir ar gyfer staff cefnogi’r Aelodau yn ymwneud â’r deunydd priodol o amlenni stampiedig y Cynulliad a chyfleuster Rhadbost Dosbarth Cyntaf i Adeilad y Cynulliad. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai swyddfeydd yr etholaethau brynu clorian er mwyn pwyso’r post i sicrhau fod y taliadau’n briodol.

Gofynnodd Karen Sinclair i swyddogion ymchwilio i’r posibilrwydd o fynd ag adnoddau ysgrifennu i swyddfeydd yr etholaethau.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod yr EFLG.

2.3 Cyfarfod y Grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu HC(2)-01-04(p4)

Arbrawf E-ddemocratiaeth

Nododd yr Aelodau yr argymhelliad i fynd ymlaen â’r prosiect i archwilio meddalwedd e-ddemocratiaeth gyda’r contractwyr MERLIN pan fyddai’r contract yn weithredol o 1 Mai 2004. Penderfynodd yr Aelodau ystyried y mater ymhellach ynghyd â manylion llawn y gofynion cyllido yng Nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Gosod System hidlo ar yr e-bost

Croesawodd yr aelodau lwyddiant y ddyfais hidlo pornograffi ym mharth AMAC, er bod problem ynglyn â’r hidlydd spam ar yr e-bost sef ei fod weithiau’n hidlo e-byst dilys. Gofynnwyd i Gwen Parry holi a oedd Aelodau’r Cynulliad yn cael dewis yn unigol ynglyn â gosod yr hidlydd spam  Byddai hi’n adrodd yn ôl i’r is-grwp TGCh.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Diweddaru Gwefannau Personol yr Aelodau

Cytunodd yr Aelodau i ohirio unrhyw benderfyniad i gyllido meddalwedd ar gyfer diweddaru gwefannau personol yr Aelodau hyd nes datblygu’r meini prawf i sicrhau ei ddefnyddio’n briodol.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Parth y Siambr

Cytunodd yr Aelodau â sefydlu Parth Siambr neilltuol.

Cau’r rhwydwaith ar gyfer gwaith cynnal a chadw

Gofynnodd yr aelodau i Gwen Parry archwilio costau cau’r rhwydwaith ar gyfer gwaith cynnal a chadw o ganol dydd Sadwrn tan hanner nos ac adrodd yn ôl i’r is-grwp TGCh.

**Gweithredu: Gwen Parry**

A’r uchod yn amod, cadarnhawyd y cofnodion.

**3 Adroddiadau gan Glerc y Cynulliad**

3.1 Papur ar Berfformiad yn erbyn targedau  HC(2)-01-04(p5)

Ymddiheurodd y Clerc am y camgymeriadau a gafwyd yn fersiwn y papur a gyflwynwyd mewn cyfarfod blaenorol. Tynnodd sylw at y cynnydd yn nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau a’r cynnydd yn nifer yr ymholiadau a atebwyd o fewn yr amser penodedig.

Nododd y Cadeirydd fod y Gwasanaeth Cyfieithu wedi llwyddo 100% i gadw at derfynau amser wrth gyfieithu gwaith ysgrifenedig i Swyddfa’r Llywydd ers Mai 2003 a bu’r cadw at derfynau amser wrth gyfieithu’n ysgrifenedig i Lywodraeth y Cynulliad hefyd yn agos iawn at y nod.

## 4 Cyfleusterau'r Aelodau

4.1 Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(02)-01-04(p6)

Nododd yr aelodau yr adolygiad o weithgareddau cysylltiadau tramor ac allanol ers 20 Tachwedd 2003.

4.2 Strategaeth Cysylltiadau Tramor a Theithio Tramor HC(02)-01-04(p7)

Cadarnhaodd y Pwyllgor egwyddorion sylfaenol a phrotocol cysylltiadau rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a seneddau a chynulliadau eraill; a chymeradwyo'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer trefnu teithiau tramor a gyllidir gan Swyddfa'r Llywydd.

4.3 Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd – Goblygiadau i Aelodau HC(02)-01-04(p8)

Bu'r aelodau'n trafod goblygiadau darpariaethau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a ddeuai i rym 1 Hydref 2004. Gofynnwyd i Gwyn Griffiths ddarparu canllawiau syml i Aelodau o ran swyddfeydd etholaeth ac adeiladau lle y gellid cynnal cymorthfeydd; ac i gynnwys cyfeiriad at staff dros dro a staff parhaol.

**Gweithredu: Gwyn Griffiths**

Gofynnwyd i Wayne Cowley archwilio i'r posibilrwydd o gael Corff Adolygu Cyflogau'r Uwch-Swyddogion i drafod rhoi cyllid ychwanegol i'r Aelodau er mwyn cyflawni gofynion y Ddeddf.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

4.4 Y diweddaraf ar Brosiect MERLIN HC(02)-01-04(p9)

Nododd yr aelodau y newyddion diweddaraf ar brosiect MERLIN a gofyn am drefnlen yn dangos y gwelliannau cyffredinol a'r uwchraddio a ddisgwylir unwaith y bydd y contract newydd yn gweithredu.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

4.5 Cynrychioli Swyddfa’r Llywydd ym Mrwsel

Dywedodd Karin Phillips fod yr ymarfer caffael a wnaed gan Swyddfa’r Llywydd wedi derbyn un cais yn unig. Roedd y bwrdd gwerthuso tendrau,a William Graham, wedi cyfarfod ac wedi penderfynu peidio â dyfarnu’r contract. Byddai’r trefniant presennol â’r WEC yn gallu parhau yn y tymor byr.

Dywedodd Karin Phillips fod modd ystyried dau bosibilrwydd sef secondiad o’r Cynulliad i Frwsel, neu o bosibl gael swyddfa ar y cyd â Senedd yr Alban neu â Thy’r Cyffredin. Gofynnodd yr aelodau i’r swyddogion archwilio’r posibiliadau i gyd.

**Gweithredu: Karin Phillips**

4.6 Arddangosfa’r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghanolfan Owain Glyndwr ym Machynlleth HC(02)-01-04(p10)

Cytunodd yr aelodau y dylai unrhyw ddeunydd a ddarperir ar gyfer yr arddangosfa fod yng nghyd-destun y deunydd a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Addysg a Gwybodaeth i’r Cyhoedd fel y gellid ei ddefnyddio’n ehangach gan y Tîm Rhanbarthol. Cytunodd yr aelodau i ohirio unrhyw benderfyniadau ar wario tan y cyfarfod nesaf.

4.7 Cynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop – Llywyddiaeth 2004/5 HC(02)-01-04(p11)

Nododd y Pwyllgor bosibilrwydd derbyn y gwahoddiad i fod yn llywydd y gynhadledd. Roedd yr aelodau’n derbyn y byddai Cymru’n elwa ar hyn, ond roeddynt yn ymwybodol o’r gost. Byddent yn ystyried yr eitem ymhellach yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth, ynghyd ag ystyriaethau cyllidol eraill. Dylid edrych ar bosibilrwydd sicrhau nawdd ar gyfer digwyddiadau, yn ogystal â ffyrdd eraill o leihau’r costau, ac adrodd yn ôl ar hyn i’r cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser, gellid cynnig ateb lled-gadarnhaol i CALRE.

**Gweithredu: Gwen Parry**

4.8 Hyrwyddo Mynediad i’r Cynulliad HC(02)-01-04(p12)

Cytunodd yr aelodau i ohirio’r papur tan y cyfarfod nesaf.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

4.9 Corff Rhyngseneddol Prydain Iwerddon HC(02)-01-04(p13)

Cytunodd yr aelodau ag egwyddorion sylfaenol Dirprwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gorff Rhyngseneddol Prydain Iwerddon (BIIP) a chymeradwyo sefydlu cyllideb neilltuol ar gyfer gweithgareddau’r BIIP.

4.10 Yr Adeilad Newydd – Addysg a Gwybodaeth HC(02)-01-04(p14)

Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion edrych ar y dewisiadau o ran noddi'r prosiectau arfaethedig ar gyfer hyrwyddo siambr newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a rhoi cyhoeddusrwydd iddi, ac adrodd yn ôl ar lefel y nawdd oedd yn cael ei gynnig.

**Gweithredu: Gwen Parry**

4.11 Swyddfa Bae Colwyn Swyddfa'r Llywydd

Dywedodd Gwen Parry fod holl Aelodau'r Cynulliad wedi cael gwahoddiad i ymweld â Swyddfa a Chanolfan Ymwelwyr Swyddfa'r Llywydd ym Mae Colwyn ar 30 Ionawr 2004 cyn i'r swyddfa gael ei hagor yn swyddogol i'r cyhoedd ar 2 Chwefror 2004. Byddai'r lansiad swyddogol ar 1 Mawrth 2004.

Byddai aelod o'r staff addysg yn gweithio yn y swyddfa yn ogystal â dau aelod staff rhanbarthol y Gogledd. Byddai cyfle hefyd i olygyddion Cofnod y Trafodion a staff y Gwasanaeth Cyfieithu weithio yn y swyddfa. Cadarnhaodd Gwen Parry fod yr ystafell gyfarfod yn y swyddfa yn ddigon mawr i gynnal cyfarfodydd y pwyllgorau pwnc ynddi.

## 5 Materion Staffio

5.1 Nid oedd unrhyw faterion staffio i adrodd arnynt.

## 6 Adeiladau

6.1 Mân Waith Newydd HC(02)-01-04(p15)

Cymeradwyodd yr aelodau'r gwaith o uwchraddio'r system deledu cylch cyfyng. Cytunwyd y byddai gwelliannau i'r system wresogi yn yr atriwm a'r system oeri yn neuadd y Cynulliad yn cael eu hystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i'r swyddogion beidio â gwneud mwy o waith o ran y system lleithio'r awyr.

**Gweithredu: Nerys Evans**

6.2 Y diweddaraf am Ystad y Cynulliad

Dywedodd John Bowley na fu unrhyw ddatblygiadau ffurfiol pellach gyda'r trafodaethau i brynu'r darn o dir y drws nesaf i siambr newydd y Cynulliad.

**Gweithredu: John Bowley**

6.3 Y diweddaraf am Faterion Darlledu mewn perthynas ag Adeilad Newydd y Cynulliad HC(02)-01-04(p16)

Cytunodd yr aelodau i roi ystyriaeth bellach i unrhyw oblygiadau cyllidebol yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

6.4 Ystafell Ysmygu Adeilad y Pierhead HC(02)-01-04(p17)

Nododd yr aelodau y papur. Penderfynodd y Pwyllgor, yn dilyn pleidlais fwrw'r Cadeirydd, na fyddent yn bwrw ymlaen gydag ystafell ysmygu yn Adeilad y Pierhead. Nodwyd y gallai'r mater gael ei ystyried eto yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

**Gweithredu: Nerys Evans**

**7 Materion Ariannol**

7.1 Adroddiad Cyllid HC(2)-01-04(p18)

Nodwyd y papur a oedd yn cynnwys trosolwg o wariant y canghennau ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn.

7.2 Cronfa Bensiwn yr Aelodau – Newid yn y Rheol ar Gynnydd yn y Gyfradd Groniadau

Nododd yr aelodau y byddai'r Cadeirydd a Wayne Cowley yn cwrdd â swyddogion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion (SSRB) ar 23 Chwefror 2004. Cytunwyd y byddai holl Aelodau'r Cynulliad yn derbyn e-bost am y mater hwn unwaith y byddai argymhellion yr SSRB yn wybyddus, sef ym mis Mai neu fis Mehefin 2004 mae'n debyg.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

7.3 Adolygiad y SSRB o Gyflogau a Lwfansau Aelodau HC(02)-01-04(p19)

Nodwyd bod trafodaethau yn mynd rhagddynt o fewn grwpiau'r pleidiau. Byddai drafft diwygiedig yn cael ei gylchredeg yn y man.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

7.4 Cadw Cofnodion Gweinyddol Aelodau'r Cynulliad

Cymeradwyodd yr aelodau'r argymhellion y dylid ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Chyllid y Wlad i gael eu cyngor a'u barn ynghylch newid yr arfer o ran cadw cofnodion gweinyddol.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

**8** **<u>Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad</u>**

Roedd copïau o Gwestiynau'r Cynulliad a atebwyd ar ran Pwyllgor y Ty wedi'u cylchredeg i'r Aelodau.

**9** **<u>Unrhyw fater arall</u>**

9.1 <u>Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) – Hawl i Bleidleisio - Cynllun Cysgodi ACau</u>

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cwrdd â chynrychiolydd o AWEMA a awgrymodd y dylai'r Aelodau gymryd rhan mewn cynllun cysgodi. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cyllideb ar gael yn Swyddfa'r Llywydd, ond y byddai'r swyddfa'n helpu i roi'r cynllun ar waith. Nodwyd y gellid defnyddio cyllideb gyflogau'r Aelodau neu fwrsariaeth gan AWEMA i gwrdd â rhai o gostau'r Aelodau.

Byddai'n cysylltu â Phrif Weithredwr AWEMA i awgrymu y dylai gysylltu â'r aelodau drwy grwpiau'r pleidiau.

**Gweithredu: Y Swyddfa Breifat**

9.2 <u>Llythyr gan Brif Weinidog Cymru – Archwilydd Cyffredinol Cymru HC(02)-01-04(p21)</u>

Dywedodd Janet Davies y byddai'n well ganddi hi, fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio, pe bai'r Archwilydd Cyffredinol presennol yn parhau yn ei swydd wrth i Fesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) fynd drwy'r Senedd ac y dylid cael cyfnod trosglwyddo wedi hynny. Roedd yr aelodau'n cytuno ac fe wnaethant ofyn i sylwadau Pwyllgor y Ty gael eu hanfon at y Prif Weinidog ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Byddai'r Llywydd yn ymateb yn y man.

**Gweithredu: Y Llywydd**

9.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Stationery Office wedi cysylltu ag ef a'u bod yn cynnig gynchyrchu CD a fyddai'n cynnwys cofnod o holl drafodion tymor cyntaf y Cynulliad. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd a Gwen Parry yn cwrdd â chynrychiolwyr y Stationery Office i drafod y mater.

**Gweithredu: Gwen Parry**

9.4 Cymeradwyodd Janice Gregory arddangosfa'r Adran Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn Neuadd y Cynulliad a chanmolodd

staff yr adran. Nodwyd y dylid cynnal ymweliadau ag ysgolion ar amseroedd pan oedd Aelodau’r Cynulliad yn gallu bod yn bresennol, os oedd hynny’n bosibl.

**Gweithredu: Gwen Parry**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 18 Mawrth 2004
**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**